

GeoMôn





GeoMôn

Mae GeoMôn yn Geoparc Byd-eang UNESCO sy'n cynnwys Ynys Môn. Mae'n rhanbarth o arwyddocâd daearegol eithriadol a geotrefnadaeth gyda 1.8 biliwn o flynyddoedd o hanes y Ddaear, y ffosilau hynaf yng Nghymru a Lloegr, a mwy na 100 o fathau o graig o bron bob Cyfnod Daearegol. Mae geoamrywiaeth y Geoparc yn darparu sylwebaeth hygyrch ar newid hinsawdd ac amgylcheddol trwy amser daearegol, a datblygiadau economaidd-gymdeithasol sydd wedi diffinio hanes yr ynys.

Beth sy'n gwneud y Dynodiad UNESCO hwn yn arbennig?

Mae Ynys Môn, sydd wedi'i lleoli ar ben gogledd-orllewin Cymru, yn ynys o ddaeareg ysbennnydd. Mae'r amrywiaeth eang o greigiau'n arwain at amrywiaeth eang o dirffurfiau a morluniau gydag arfordir ysbennnydd yn cynnwys traethau tywodlyd eang, cildraethau creigiog bach, a chlogwyni creigiog syfrdanol.

Mae'r creigiau'n cynnwys dyddodion folcanig a ffurfiwyd ar ffiniau platiau tectonig, creigiau metamorffig o barthau islithriadau a dyddodion eang o'r Oes lâ ddiwethaf.

Diffinnir y dirwedd ddynol gan gerrig adeiladu sy'n dylanwadu ar bensaernïaeth a chan briddoedd sy'n pennu ffermio a choedwigaeth. Mae amrywiaeth o chwareli a mwynloddiau (gan gynnwys mwynglawdd copr a oedd unwaith y mwyaf yn y byd), henebion ac aneddiadau.

Roedd y pŵer yn y creigiau sy'n gwneud y dirwedd yn cerflunio diwylliant ac iaith y bobl sy'n byw ar yr ynys hynod hon.



Global Geoparks

GeoMôn

Siroedd: **Anglesey**



 geomon.co.uk

 info@geomon.co.uk

Cynhyrchwyd y daflen ffeithiau hon gan Gomisiwn Cenedlaethol y DU ar gyfer UNESCO fel rhan o'i brosiect Lleol i Fyd-eang, a wnaed yn bosibl gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, gyda diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

